Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Briff Polisi
Mawrth 2021

# Gwella Cydraddoldeb Hiliol ym maes Trosedd a Chyfiawnder

## Cefndir

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyhoeddi Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb hiliol ac ethnig strwythurol yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2020). Mae’r nodyn briffio polisi hwn yn crynhoi un o chwe adroddiad a luniwyd gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i ddarparu tystiolaeth annibynnol i lywio gwaith datblygu’r Cynllun Gweithredu. Mae'n canolbwyntio ar dystiolaeth ac argymhellion ar gyfer gweithredu sy'n ymwneud â chydraddoldeb hiliol mewn trosedd a chyfiawnder.

## Cyflwyniad

Mae'r system cyfiawnder troseddol yn aml yn cael ei nodi yn faes lle mae anghyfiawnderau hiliol yn amlwg, ac mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y broblem wedi bod yn gwaethygu flwyddyn ar ôl blwyddyn (Lammy, 2017; Jones, 2020). Yng Nghymru, mae pobl Ddu, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig yn cael eu gorgynrychioli ar bob cam o'r system cyfiawnder troseddol: fel dioddefwyr troseddau, wrth stopio a chwilio, o fewn poblogaeth y carchardai - sy'n dangos lefelau uwch o anghymesuredd hiliol o gymharu â Lloegr - ac o fewn y boblogaeth prawf (SYG, 2020; Y Swyddfa Gartref, 2019; Jones, 2020).

Mae'r nodyn briffio polisi hwn yn cyflwyno'r dystiolaeth yn ymwneud â'r hyn sy'n gweithio i leihau gwahaniaethau hiliol yn y system cyfiawnder troseddol mewn perthynas â chwe maes allweddol. Er nad yw llawer o'r polisi cyfiawnder troseddol wedi'i ddatganoli yng Nghymru, mae camau y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i fynd i'r afael â throseddau neu eu lleihau a hyrwyddo adsefydlu, a chrynhoir y rhain ar draws y chwe maes hyn.

## 'Esbonio neu ddiwygio'

Mae'r egwyddor o 'esbonio neu ddiwygio' yn nodi, 'os na all asiantaethau cyfiawnder troseddol ddarparu esboniad ar sail tystiolaeth am wahaniaethau ymddangosiadol rhwng grwpiau ethnig, yna dylid cyflwyno diwygiadau i fynd i'r afael â'r gwahaniaethau hynny' (Lammy, 2017).

### Argymhellion

- Dylai'r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, y farnwriaeth a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM gyhoeddi strategaeth ar bobl Ddu, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru ac adrodd yn flynyddol i'r Senedd.
- Ymestyn yr egwyddor 'esbonio neu ddiwygio' i gymwyseddau datganoledig sy'n chwarae rôl mewn gwahaniaethau hiliol yn y system cyfiawnder troseddol.

## Data ar wahaniaethau hiliol

Er mwyn i gyfiawnder troseddol ac asiantaethau eraill yng Nghymru nodi gwahaniaethau hiliol ac archwilio a gwella’u harferion, mae angen gwybodaeth a data cadarn arnynt am wahaniaethau hiliol ar draws pob cam o'r daith cyfiawnder troseddol.

## Argymhellion

- Ehangu'r arolwg carcharorion am brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACE) i gynnwys poblogaethau carchardai menywod.
- Cynnwys dadansoddiad o grwpiau ethnig yn yr arolwg ACE.
- Gwella dulliau cofnodi a monitro data ethnigrwydd ar draws ffactorau y gwyddys eu bod yn gysylltiedig ag ymddygiad troseddol e.e. gwaharddiadau ysgol, cyfleoedd am gyflogaeth.

## Mynd i'r afael â throseddau casineb

Mae nifer y troseddau casineb a gofnodwyd gan yr heddlu yng Nghymru wedi cynyddu'n sylweddol dros y saith mlynedd diwethaf, gan gyrraedd 2,634 o droseddau yn 2019/20 - sef dwbl y nifer yn 2012/13 (Y Swyddfa Gartref, 2013; 2020). Roedd mwyafrif (65%) y troseddau yn 2019/20 yn droseddau casineb hiliol, sy'n golygu bod grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a chymunedau ffydd leiafrifol yn cael eu heffeithio'n anghymesur.

## Argymhellion

- Cynyddu cyllid ar gyfer gwasanaethau troseddau casineb, gyda'r nod o ehangu'r ddarpariaeth gyfredol.
- Gwella dulliau o gyfeirio at ymatebion cyfreithiol a sefydliadol i droseddau casineb, gan gynnwys trwy ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth.
- Mabwysiadu ystod ehangach o ddulliau i atal troseddau casineb.
- Mabwysiadu strategaeth amlasiantaethol a chyfannol i fynd i'r afael â throseddau casineb yng Nghymru, sy'n cynnwys ymyriadau addysgol sy'n ceisio lleihau rhagfarn a chodi ymwybyddiaeth o amrywiaeth ddiwylliannol.
- Gwella data ar gyffredinrwydd achosion o droseddau casineb yng Nghymru trwy Arolwg Trosedd a Chyfiawnder yng Nghymru, neu drwy ychwanegu cwestiynau am droseddau casineb yn Arolwg Cenedlaethol Cymru.



## Lleihau trais yn erbyn menywod a merched (VAWG)

Mae gwasanaethau i fenywod a merched sy'n wynebu trais a cham-drin domestig o dan bwysau cynyddol oherwydd toriadau cyllid, sydd wedi cael effaith anghymesur ar wasanaethau arbenigol ar gyfer menywod a merched Du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig (Cymorth i Ferched Cymru, 2018). Er nad yw'r data sydd ar gael yn dangos bod menywod a merched Du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig mewn mwy o berygl o drais at ei gilydd, gall y mathau o gamdriniaeth y maent yn eu hwynebu a'r profiadau y maent yn eu cael wrth gyrchu cymorth fod yn wahanol, gan olygu bod angen cynnig gwasanaethau cymorth wedi'u teilwra (SYG, 2018).

## Argymhellion

- Diogelu cyllid ar gyfer gwasanaethau VAWG arbenigol yng Nghymru i ateb yn

ddigonol y galw a ragwelir yn ystod ac ar ôl y pandemig.

- Cynyddu ymwybyddiaeth o anghenion penodol gwahanol grwpiau o fewn rhaglenni cyflawnwyr presennol trwy hyfforddiant ymarferwyr, er mwyn galluogi gweithio trawsddiwylliannol effeithiol.

## Y system cyfiawnder ieuenctid

Mae gwahaniaethau hiliol wedi cynyddu yn y system cyfiawnder ieuenctid yn ogystal ag yn y system cyfiawnder troseddol yn ei chyfanrwydd, yn enwedig yn achos opsiynau dedfrydu mwy difrifol fel dedfrydau o garchar (Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, 2020).

### Argymhellion

- Neilltuo mwy o flaenoriaeth ac adnoddau i ymchwilio i'r ffactorau cyfrannol sy'n cyfrannu at droseddu plant fel y maent yn ymwneud yn benodol â phlant Du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig; a sut y gellir dadansoddi'r rhain ar draws grwpiau ethnig penodol.
- Defnyddio canfyddiadau'r ymchwil hon i lywio dyluniad ymyriadau atal a dargyfeirio ar gyfer plant Du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig sy'n droseddwyr tro cyntaf, neu sydd mewn perygl o droseddu, gyda'r nod o atal y llif i mewn i'r systemau cyfiawnder ieuenctid ac oedolion ffurfiol. Gallai modelau dargyfeirio wedi'u teilwra gynnwys y rhai nad oes gofyn iddynt gyfaddef i'r drosedd fel elfen orfodol ar gyfer dargyfeirio.
- Annog mwy o weithio mewn partneriaeth rhwng heddluoedd a thimau troseddu ieuenctid (YOTs) yng Nghymru i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar arferion dargyfeirio sy'n dibynnu ar feini prawf mwy hyblyg na derbyn gorfodol (e.e. derbyn cyfrifoldeb).

### Argymhellion

- Teilwra rhaglenni neu ymyriadau adsefydlu ar gyfer y rhai sydd eisoes yn ymwneud yn ffurfiol â'r system cyfiawnder ieuenctid ar gyfer plant Du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig gyda'r nod o gynyddu ymateboldeb.
- Arwain dull unigryw wedi'i dargedu at flaenoriaethu anghenion plant Du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder ieuenctid, neu sydd mewn perygl o ymwneud â hi, trwy weithio mewn partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, YOTs Cymru ac asiantaethau sy'n gweithio'n agos gyda nhw (e.e. gwasanaethau plant ac ysgolion) .

## Mynediad at gyfiawnder

Mae cysylltiad annatod rhwng mynediad at gyfiawnder i unigolion Du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig â lefelau ymddiriedaeth yn y system cyfiawnder troseddol, sydd yn eu tro, yn gysylltiedig â gwahaniaethau hiliol yn system y llysoedd a chysylltiad blaenorol yr heddlu. Er bod tua thraean (35%) o'r bobl Wyn a anwyd ym Mhrydain yn credu bod y system cyfiawnder troseddol yn gwahaniaethu yn erbyn grwpiau penodol, mae dros hanner (51%) y bobl Ddu, Asiadd ac o leiafrifoedd ethnig a anwyd ym Mhrydain o'r un farn (Bowen, 2017).

### Argymhellion

- Symud egwyddorion a strategaethau yn eu blaen (e.e. yn ymwneud â thryloywder, tegwch gweithdrefnol a thuedd) y dangoswyd eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar ymddiriedaeth mewn prosesau cyfiawnder troseddol o fewn meysydd cymhwysedd datganoledig.
- Archwilio ffyrdd o liniaru effaith toriadau i gyllid cymorth cyfreithiol ar fynediad at gyfiawnder ar gyfer grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

## Pwerau a ysgogiadau polisi Llywodraeth Cymru

Gan nad yw'r rhan fwyaf o’r meysydd sy'n ymwneud â pholisi trosedd a chyfiawnder wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru, mae mwyafrif yr argymhellion mewn adroddiadau ac ymholiadau presennol wedi'u hanelu at lefel y DU. Fodd bynnag, gallai gweithredoedd posibl yn yr adrannau blaenorol gael eu deddfu gan Weinidogion Cymru gan ddefnyddio naill ai eu pwerau meddal neu drwy eu dylanwad dros feysydd polisi sy'n cael effaith ar gyfraddau troseddu. Er enghraifft, gall Llywodraeth Cymru weithredu i wneud gwell defnydd o setiau data sy’n bodoli eisoes a allai daflu goleuni pellach ar yr hyn sy’n gyrru’r cynnydd yn yr anghymesuredd hiliol yn y system gyfiawnder yng Nghymru.

Gallai hefyd adeiladu ar feysydd presennol lle mae dulliau Cymru at droseddu a chyfiawnder wedi gwyro oddi wrth genhedloedd eraill y DU, e.e. drwy fabwysiadu agwedd 'y plentyn yn gyntaf' tuag at gyfiawnder ieuenctid, neu lle mae posibilrwydd gwneud hynny yn y dyfodol e.e. trwy berthynas Llywodraeth Cymru â Chomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd.

## Cyfeiriadau


Bowen, P. (2017). Creu Ymddiriedaeth: sut y gall ein llysoedd wella profiad y llys troseddol ar gyfer diffynyddion Du, Asiaidd ac o Leiafrifoedd Ethnig. Llundain: Canolfan Arloesi Cyfiawnder. Adalwyd o: **https://justiceinnovation.org/publications/building-trust-how-our-courts-can-improve-criminal-court-experience-black-asian-and**

Y Swyddfa Gartref (2013). Trosolwg o droseddau casineb yng Nghymru a Lloegr: tablau’r atodiadau. Tabl 1.01 yn yr Atodiad: Troseddau casineb yng Nghymru a Lloegr yn ôl ardal yr heddlu, 2012/13. Adalwyd o: **https://www.gov.uk/government/statistics/an-overview-of-hate-crime-in-england-and-wales**

Y Swyddfa Gartref (2019). Pwerau a gweithdrefnau'r heddlu, Cymru a Lloegr am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2019. Adalwyd o: **https://www.gov.uk/government/statistics/police-powers-and-procedures-england-and-wales-year-ending-31-march-2019**

Y Swyddfa Gartref (2020). Troseddau casineb, Cymru a Lloegr, 2019 i 2020: Tablau’r atodiadau. Tabl 1 yn yr Atodiad: Troseddau casineb a gofnodwyd gan yr heddlu yng Nghymru a Lloegr yn ôl ardal yr heddlu, 2019/20. Adalwyd o: **https://www.gov.uk/government/statistics/hate-crime-england-and-wales-2019-to-2020**

Jones, R. (2020). Prison, Probation and Sentencing in Wales: 2019 Factfile. (Saesneg yn unig) Canolfan Llywodraethiant Cymru Prifysgol Caerdydd Medi 2020. Adalwyd o: **https://www.cardiff.ac.uk/__data/assets/pdf_file/0010/2446129/Prison,-Probation-and-Sentencing-in-Wales-2019-Factfile.pdf**

Lammy, D. (2017). Adolygiad Lammy: Adolygiad annibynnol o'r driniaeth a gaiff unigolion Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y System Cyfiawnder Troseddol, a'u canlyniadau Adalwyd o: **https://www.gov.uk/government/publications/lammy-review-final-report**

SYG (2018). Women most at risk of partner abuse. Adalwyd o: **https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/womenmostatriskofpartnerabuse**

SYG. (2020). Victims of crime. Ethnicity Facts and Figures Crime, justice and the law. Adalwyd o: **https://www.ethnicity-facts-figures.service.gov.uk/crime-justice-and-the-law**

Llywodraeth Cymru. (2020). Nawr yw’r amser i weithredu yn erbyn anghydraddoldeb hiliol: Llywodraeth Cymru yn gosod llwybr ar gyfer newid systemig a chynaliadwy i Gymru Datganiad i'r Wasg. 24 Medi 2020. Adalwyd o: **https://llyw.cymru/nawr-ywr-amser-i-weithredu-yn-erbyn-anghydraddoldeb-hiliol-llywodraeth-cymru-yn-gosod-llwybr-ar**

Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2020). Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid: tablau atodol 2018 i 2019 Pennod 7 - Plant yn y ddalfa ieuenctid, Tabl 7.11. Adalwyd o: **https://www.gov.uk/government/statistics/youth-justice-statistics-2018-to-2019**

## Rhagor o wybodaeth

Am yr adroddiad llawn gweler Roberts, M. (2020). **Gwella Cydraddoldeb Hiliol ym maes Trosedd a Chyfiawnder**. Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.



## Ynglŷn â Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y Ganolfan, rydym yn cydweithio gydag arbenigwyr polisi blaenllaw er mwyn darparu tystiolaeth o ansawdd uchel a chyngor annibynnol i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru sydd yn eu helpu i wella penderfyniadau polisi a deilliannau.

Mae'r Ganolfan, sydd wedi ei hariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Llywodraeth Cymru, wedi ei lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae'n rhan o Rwydwaith Beth Sy'n Gweithio y DU.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Manon Roberts**

+44 (0)29 2087 5345

manon.roberts@wcpp.org.uk

**Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru**

Prifysgol Caerdydd, 10/12 Plas yr Amgueddfa, Caerdydd, CF10 3BG

www.wcpp.org.uk/cy

029 2087 5345

info@wcpp.org.uk

@WCfPP

Cardiff University / Prifysgol Caerdydd

UKRI Economic and Social Research Council

Llywodraeth Cymru / Welsh Government